CELF CYDRADDOLDEB
TROSOLWG I'R ATHRO

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau *Celf Cydraddoldeb*
- Strwythur *Celf Cydraddoldeb*
- Gwahaniaethu
- Amlinelliad manwl o'r sesiwn
- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cydnabyddiaeth
- Adnoddau defnyddiol

Cyflwyniad

Celf Cydraddoldeb

Mae'r adnodd hwn, sydd wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer athrawon Celf a Dylunio, yn cynnwys detholiad o ddyluniadau clasurol sy'n dangos technegau dylunio graffeg penodol. Mae'n gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio'r technegau hyn i ddangos ystadegyn ysgytwol yn ymwneud ag anghydraddoldeb byd-eang. Cynlluniwyd yr adnodd er mwyn cynorthwyo athrawon i gyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a galluogi dysgwyr i feistroli pecynnau dylunio megis Photoshop. Mae'r sesiynau, sy'n defnyddio Celf a Dylunio i archwilio mater anghydraddoldeb byd-eang mewn ffordd greadigol, yn gwahaniaethu ac yn cynnig posibiliadau ymestyn sy'n cefnogi addysg dinasyddiaeth, yn datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol ac yn helpu dysgwyr i weld sut y mae adnoddau wedi'u dosbarthu rhwng poblogaeth y byd.

Y pwrpas a'r ystod oedran sy'n cael ei thargedu

Pwrpas artistig cyffredinol y prosiect hwn yw galluogi pobl ifanc rhwng 11 a 14 oed i ddysgu sut i gymhwyso egwyddorion dylunio yn Photoshop (neu becyn dylunio arall, neu offer a thempledi sydd ar gael am ddim ar-lein) i greu posteri sy'n cyfleu ystadegau yn ymwneud ag anghydraddoldeb mewn ffordd gain.

Pe baem yn cymryd holl gyfoeth y blaned ac yn ei rannu'n ddau, byddai bron i hanner y cyfoeth yn mynd i'r 1% mwyaf cyfoethog, tra byddai'r hanner arall yn gorfod cael ei rannu rhwng y 99% arall. Mae anghydraddoldeb yn cynyddu yn y DU: mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y DU bellach yn gyfoethocach na'r 20% isaf yn y boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).[1]

O'r hyn a welwyd, bydd gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr o'r oedran hwn ymdeimlad greddfol a dwfn o anghyfiawnder pan fyddant yn gweld y ffeithiau a'r ffigurau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb.

[1] Oxfam (2014) 'A tale of two Britains', Briff i'r Cyfryngau gan Oxfam, 17 Mawrth 2014.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Yn ôl Barack Obama, anghydraddoldeb incwm yw “her fawr ein hoes ni”,[2] a dywedodd y Pab Francis mai “anghydraddoldeb yw gwraidd drygioni cymdeithasol”.[3]

Beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu?

Mae anghydraddoldeb yn amlygu ei hun mewn nifer o feysydd, gan gynnwys hil, rhywedd, daearyddiaeth a’r economi, sy’n aml yn gysylltiedig â’i gilydd. Heddiw, mae miliynau o bobl yn byw heb ddŵr yfed glân a heb ddigon o fwyd i fwydo’u teuluoedd; mae llawer yn gweithio bob awr o’r dydd i geisio cael deupen llinyn ynghyd. Yr un pryd, mae’r bobl gyfoethocaf yn gallu byw bywydau hwy, hapusach ac iachach, ac yn gallu defnyddio eu cyfoeth i wneud yn siŵr bod hynny’n wir am eu plant hefyd.[4]

Yn *Celf Cydraddoldeb*, bydd anghydraddoldeb yn cyfeirio fel arfer at wahaniaethau eang mewn poblogaeth, o ran cyfoeth pobl, eu hincwm a’u mynediad at wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg.

Pam y mae anghydraddoldeb yn broblem?

Er bod rhai pobl yn dadlau bod angen anghydraddoldeb economaidd er mwyn ysgogi twf a ffyniant, mae anghydraddoldeb eithafol yn achosi problemau. Mae’r bwlch rhwng y cyfoethog a’r tlawd bellach i’w weld yn ymledu mewn llawer o wledydd ar hyd a lled y byd. Mae saith o bob deg person yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn y 30 mlynedd diwethaf.

Mae anghydraddoldeb yn herio’r ymdeimlad greddfol o degwch y mae’r rhan fwyaf o bobl yn ei deimlo, ond mae rhesymau eraill pam y mae anghydraddoldeb eithafol yn broblem. Un o’r rhain yw’r ffaith fod anghydraddoldeb eithafol yn amharu ar ddemocratiaeth ac yn lleihau’r cyfleoedd y mae pobl dlotach yn eu cael mewn bywyd. Yn aml iawn mae’r elit cyfoethog yn defnyddio eu cyfoeth i ddylanwadu ar y sefydliadau sy’n llywodraethu, ac ar ganlyniadau gwleidyddol, fel bod yr economi’n cael ei gweithredu er eu budd hwy, ac nid er budd ehangach cymdeithas. Mae pobl eraill yn cael eu cau allan o hyd ac nid yw eu barn yn cael ei hystyried.[5]

I gael rhagor o wybodaeth gefndir am anghydraddoldeb, gweler y daflen ar wahân *Nodiadau cefndir i athrawon.*

Beth yw ffeithluniau a pham mai dyma’r cyfrwng a ddewiswyd ar gyfer y prosiect hwn?

Mae ffeithluniau yn ddyluniadau trawiadol sy’n cyfuno graffigwaith, diagramau a thestun i gyfleu llawer o wybodaeth yn gryno. Mae nifer y dylunwyr sy’n arbenigo yn y cyfrwng hwn wedi cynyddu’n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gwelwyd cynnydd hefyd o ran faint o ddata sy’n cael eu cyhoeddi a’u rhannu dros y Rhyngrwyd. Gall y dylunwyr a’r newyddiadurwyr data hyn droi setiau o ddata ar unrhyw bwnc bron yn ddiagramau syml,

[2] ‘Remarks by the President on economic mobility’, Araith a draddodwyd yn y Tŷ Gwyn ar 4 Rhagfyr 2013, White House Press Office, https://www.whitehouse.gov/the-press-office/2013/12/04/remarks-president-economic-mobility
[3] Twitter, 28 Ebrill 2014
[4] Oxfam GB (2014) ‘Even It Up: Time to End Extreme Inequality’, Rhydychen: Oxfam GB, t. 4.
[5] *Ibid.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

hardd sy'n gallu datgelu patrymau a chysylltiadau[6] a fyddai'n anos i'w gweld mewn siartiau a thablau mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar destun.

Yn ystod y prosiect hwn, rhoddir nifer o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn y dull hwn o ddylunio. Byddant yn cymryd ffeithiau a ffigurau am effeithiau anghydraddoldeb sydd wedi'u casglu gan sefydliadau rhyngwladol, fel Oxfam, y Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd, a fyddai fel arall yn cael eu cyhoeddi mewn taenlenni trwchus a siartiau Excel, ac yn eu troi'n bosteri atyniadol a hawdd eu deall gan ddefnyddio'r sgiliau Photoshop a'r egwyddorion dylunio y byddant yn eu dysgu ar y daith.

I gael syniadau am ddeunydd darllen pellach, gweler y llyfryddiaeth ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gall y dysgwyr gyflwyno'u gwaith terfynol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, megis taflenni, posteri, areithiau ac erthyglau i bapurau newydd lleol, neu fel eitemau newyddion ar gyfer y radio neu'r teledu, gan gefnogi eu datblygiad fel dinasyddion byd-eang gweithredol.

Nodau *Celf Cydraddoldeb*

Bydd y prosiect hwn yn caniatáu i ddysgwyr:

- Ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o arferion dylunio graffeg traddodiadol a chyfoes, gan fynegi penderfyniadau sy'n seiliedig ar resymeg a all fod yn sail i'w gwaith.
- Gwerthfawrogi achosion ac effeithiau anghydraddoldeb ac atebion posibl.
- Cynyddu eu sgiliau cyfryngau digidol trwy ddefnyddio Photoshop (neu raglen gyfatebol) i drin a thrafod elfennau dylunio (lliw, gofod, cyfansoddiad, gwead) i gynrychioli setiau cynyddol gymhleth o ddata sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb.

Strwythur *Celf Cydraddoldeb*

Bwriedir i'r prosiect hwn ymestyn dros o leiaf bum sesiwn yn para am o leiaf awr yr un. Os bydd digon o amser a diddordeb, mae cyfleoedd i ymestyn pob sesiwn unigol a/neu ymestyn y prosiect trwy ychwanegu neu ymgorffori tasgau sy'n fwy technegol ac yn gofyn am fwy o ddeallusrwydd.

- 3 sioe sleidiau
- 1 fideo
- 5 cynllun sesiwn
    - Sesiwn 1: A all gwybodaeth fod yn hardd?
    - Sesiwn 2: Beth yw anghydraddoldeb?
    - Sesiwn 3: Syniadau mawr mewn dylunio graffeg
    - Sesiwn 4: Gadewch i ni fynd yn ddigidol!
    - Sesiwn 5: Gall setiau data newid meddylfryd

Mae rhai sesiynau'n cynnwys sioeau sleidiau a/neu daflenni gweithgareddau.

- Mae sesiynau 1–3 yn cynnwys sioeau sleidiau â nodiadau i athrawon.
- Ar gyfer sesiynau 1, 3, 4 a 5 mae angen llungopïo taflenni gweithgareddau.

[6] David McCandless (2010) 'The beauty of data visualization', sgwrs TED, http://www.ted.com/talks/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau'n addas ar gyfer gwahaniaethu yn ôl deilliant, felly nid oes cyfeiriad penodol at wahaniaethu yng nghynlluniau'r sesiynau. Er hyn, byddwch yn gweld bod awgrymiadau yn aml yn y syniadau pellach ynglŷn â sut i ymestyn disgyblion mwy abl.

Sylwer: Mae rhagor o gyfarwyddiadau ar gyfer sesiynau 1-3 i'w gweld yn nodiadau'r sioe sleidiau.

Gofynion TG

Cyn cychwyn y prosiect, dylech nodi'r gofynion technegol a ganlyn:

- **Yr athro/athrawes:** Oherwydd natur graffig y deilliannau, disgwylir y bydd gan yr athro/athrawes rywfaint o wybodaeth yn barod am elfennau sylfaenol dylunio graffeg a chyfryngau digidol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, argymhellir eich bod yn dylunio ffeithlun enghreifftiol.
- **Yr ystafell ddosbarth:** Mae'r cyfarpar sylfaenol sydd eu hangen yn cynnwys taflunydd ar gyfer sioeau sleidiau, siaradwyr a digon o gyfrifiaduron â mynediad i'r Rhyngrwyd i ddysgwyr allu gweithio'n annibynnol.
- **Y feddalwedd:** Mae'r prosiect wedi'i dargedu tuag at Adobe Photoshop CS6 (ar gyfer cyfrifiaduron personol), oherwydd ei hyblygrwydd a'i boblogrwydd. Bydd rhai o'r dulliau arbed amser a'r offer yn wahanol mewn fersiynau hŷn a fersiynau Mac. Gan ddibynnu beth sydd ar gael i'r ysgol, a chan ddibynnu ar brofiad yr athro/athrawes, gellid defnyddio rhaglenni eraill, er enghraifft *easel.ly*, rhaglen ffeithluniau ddi-dâl, neu raglen graffigwaith fwy arbenigol Adobe, InDesign.

Sylwer: Nid yw'r meddalwedd uchod yn eiddo i Oxfam, ac nid yw Oxfam yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn at ddibenion yr adnodd hwn. Nid yw unrhyw farn a fynegir ar y gwefannau hyn, neu gan y sefydliadau hyn, o reidrwydd yn adlewyrchu barn Oxfam. Nid yw Oxfam yn cymeradwyo unrhyw feddalwedd o'r fath.

Asesu a chyflwyno

Fel pob cynnyrch dylunio, ni fydd ateb cywir neu anghywir o reidrwydd, ond gellid asesu posteri terfynol ar sail dyfnder ymchwil y dysgwr i anghydraddoldeb a'i ddewis o ddata; ei hyder wrth ddefnyddio Photoshop i drin a thrafod elfennau dylunio; a'i allu i gyfathrebu'n glir i'w gynulleidfa.

Mae Twitter yn ffordd ddelfrydol o alluogi dysgwyr i rannu eu gwaith â chynulleidfa ehangach go iawn. Gallent dagio @OxfamEducation yn y trydariad. Byddwn wedyn yn gallu aildrydar enghreifftiau dethol o waith dysgwyr fel bod ysgolion eraill yn gallu eu gweld. Gwnewch yn siŵr bod postiadau'n cael eu rhannu trwy gyfrif cyfryngau cymdeithasol swyddogol eich ysgol yn unig, eich bod yn dilyn polisïau Amddiffyn a Diogelu Plant eich ysgol, a'ch bod wedi cael unrhyw ganiatâd perthnasol cyn postio.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Celf Anghydraddoldeb – amlinelliad manwl o'r sesiwn

Trosolwg o'r sesiwn	**Amcanion dysgu** Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:	**Deilliannau dysgu** Bydd y dysgwyr yn dysgu:	**Cwestiynau allweddol**	**Gweithgareddau**	**Adnoddau**
Sesiwn 1: ***A all gwybodaeth fod yn hardd?*** Cyflwynir y dysgwyr i gelf ffeithluniau	• Dechrau datblygu dealltwriaeth o elfennau dylunio ffeithlun • Gwrando ar ddylunydd yn siarad am ei waith ei hun • Dadansoddi dull ac ystyr gwaith dylunydd cyfoes o Brydain, David McCandless.	• Canfod ystyr ffeithlun di-eiriau • Gwerthfawrogi sut a pham y mae dylunwyr yn defnyddio ffeithluniau i wneud synnwyr o symiau mawr o ddata • Sut i egluro effaith gwahanol ddewisiadau dylunio (ar Daflen Gweithgaredd 1.2).	• Pam y mae newyddiadurwyr data, fel McCandless, yn dewis adrodd am ystadegau trwy ddulliau graffig? • Pa wybodaeth sy'n addas/sydd ddim yn addas ar gyfer dulliau graffig? Pam/ Pam ddim? • Pa ddewisiadau creadigol y mae McCandless wedi eu gwneud ynglŷn â lliw, teipograffeg, gofod a gwead? • Sut y mae hyn yn effeithio ar y ffordd rydych yn darllen y graffigyn?	Gweithgaredd 1.1: Nid celf haniaethol yw hyn! Gweithgaredd 1.2: Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd?	• Mynediad at gyfrifiadur i bob dysgwr (dewisol) • Taflunydd a system sain • Sioe sleidiau Sesiwn 1 • Argraffu'r tudalennau nodiadau • Canllaw i Athrawon Sesiwn 1, gan gynnwys: o Copïau o Daflen Gweithgaredd 1.2 (un i bob pâr) o Taflen Gweithgaredd 1.2, Copi'r Athro
Sesiwn 2: ***Beth yw anghydraddoldeb?*** Bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn diffinio anghydraddoldeb cyn dylunio eu ffeithlun cyntaf â llaw i fynegi ystadegyn penodol	• Gwerthuso posteri a ddyluniwyd i hysbysu pobl ynglŷn ag ystadegyn anghydraddoldeb penodol. • Chwarae (neu ddychmygu eu bod yn chwarae) fersiwn newydd o Monopoly lle mae cyfoeth wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal rhwng chwaraewyr o'r dechrau • Gwylio fideo am anghydraddoldeb	• Bod mwy nag ymdrech a sgil unigolion yn dylanwadu ar ddosbarthiad cyfoeth • Am achosion ac effeithiau anghydraddoldeb economaidd • Defnyddio symbolau i ddylunio poster cytbwys â llaw sy'n rhoi gwybodaeth am anghydraddoldeb.	• Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rydych wedi eu gweld neu eu profi? • Sut y gallwn ddiffinio anghydraddoldeb? • Pam y mae'n bwysig mynd i'r afael ag anghydraddoldeb 'nawr? • Sut y gallwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb? • Sut y gallwn gyfathrebu'n weledol y syniad bod hanner cyfoeth y byd yn perthyn i ddim ond 1% o'i boblogaeth?	Gweithgaredd 2.1: Ddim yn chwarae'n deg Gweithgaredd 2.2: Beth yw anghydraddoldeb? Gweithgaredd 2.3: Lluniadu'r 1% cyfoethocaf	• Digon o setiau Monopoly i grwpiau o bedwar i wyth dysgwr chwarae. (Yn lle hynny, dylai arbrawf meddwl fod yn ddigon!) • Taflunydd a system sain • Sioe sleidiau Sesiwn 2 o Argraffu'r tudalennau nodiadau • Canllaw i Athrawon Sesiwn 2 • Pensiliau lliw a phapur tynnu llun neu lyfrau braslunio

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sesiwn 3: ***Syniadau mawr mewn dylunio graffeg*** Cyflwynir y dysgwyr i bedwar syniad sy'n dylanwadu ar ddylunwyr ffeithluniau heddiw cyn defnyddio un i addasu eu gwaith	• Datblygu dealltwriaeth feirniadol o dueddiadau dylunio hanesyddol sy'n parhau i ddylanwadu ar ddylunwyr ffeithluniau heddiw • Arbrofi â phictogramau, caligramau, lliwiau cyflenwol a/neu liwiau tryloyw sy'n gorgyffwrdd.	• Adnabod amrywiaeth o ddewisiadau dylunio technegol a dadansoddi eu heffaith ar ystyr a/neu apêl esthetig y gweithiau a restrwyd ar Daflen Gweithgaredd 3.1 • Mireinio eu dyluniadau 1% o'r sesiwn diwethaf trwy fabwysiadu un neu ragor o'r dewisiadau hyn.	• Pa syniadau a thechnegau dylunio y mae dylunwyr ffeithluniau heddiw yn eu benthyca o'r gorffennol? • Pa un o'r rhain allwn i ymarfer ei ddefnyddio er mwyn gwella'r dyluniad a wnes i yn y sesiwn diwethaf?	Gweithgaredd 3.1: Syniadau mawr mewn dylunio graffeg Gweithgaredd 3.2: Asesu'r dyluniad 1% Gweithgaredd 3.3: Mireinio'r dyluniad 1%	• Taflunydd • Sioe sleidiau Sesiwn 3 ○ Argraffu'r tudalennau nodiadau • Canllaw i Athrawon Sesiwn 3, gan gynnwys: ○ Copïau o Daflen Gweithgaredd 3.1 ○ Taflen Gweithgaredd 3.2, Copi'r Athro • Pensiliau lliwio neu gyfrifiadur â mynediad at argraffydd ar gyfer pob dysgwr (ar gyfer y gweithgaredd ymestyn dewisol yn y golofn olaf ar Daflen Gweithgaredd 3.1)
Sesiwn 4: ***Gadewch i ni fynd yn ddigidol!*** Cyflwynir y dysgwyr i'r offer a'r cysyniadau hanfodol yn Photoshop. Yna byddant yn creu eu ffeithlun eu hunain i gyfleu data anghydraddoldeb	• Ymgyfarwyddo â rhyngwyneb Photoshop • Arbrofi â haenau lliw tryloyw a phictogramau yn Photoshop • Datblygu *repertoire* o sgiliau a dulliau arbed amser wrth greu ffeithluniau digidol.	• Adnabod yr offer, y paneli a'r ffenestri mwyaf defnyddiol yn Photoshop gan ddefnyddio Taflen Gweithgaredd 4.1 • Ail-greu ffeithlun digidol sy'n cyfleu'r un data anghydraddoldeb â'r sesiwn diwethaf • Cofnodi'r triciau a'r dulliau arbed amser y maent yn eu dysgu yn Photoshop	• Beth ydyn ni'n ei wybod yn barod ynglŷn â sut y mae Photoshop yn gweithio? • Pa offer Photoshop fydd y rhai mwyaf defnyddiol wrth greu/ail-greu ein dyluniad poster 1%? • Pa ddulliau arbed amser a/neu driciau rydych chi wedi eu dysgu wrth arbrofi?	Gweithgaredd 4: Creu poster 1% yn Photoshop	• Cyfrifiaduron â mynediad i'r Rhyngrwyd ac *un* o'r canlynol: ○ Mynediad at www.easel.ly ○ Photoshop (mae'r cyfarwyddiadau enghreifftiol yn seiliedig ar fersiwn CS6 ond gellid eu haddasu ar gyfer fersiwn arall) ○ Rhaglen ddylunio arall y mae'r dysgwyr yn gyfarwydd â'i defnyddio • Canllaw i Athrawon Sesiwn 4, gan gynnwys: ○ Copïau o Daflenni Gweithgaredd 4.1 i 4.3
Sesiwn 5: ***Gall setiau data newid meddylfryd*** Bydd y dysgwyr yn creu ffeithlun wedi'i fireinio sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb	• Ystyried gwahanol gyfosodiadau, cynlluniau lliw, ffurfdeipiau, pictogramau a chaligramau • Mireinio eu sgiliau dylunio ffeithluniau yn Photoshop • Ymchwilio a thrafod gwahanol setiau data anghydraddoldeb	• Dewis / dod o hyd i'r set ddata sydd o'r diddordeb mwyaf iddyn nhw • Cofnodi a gwerthuso tri opsiwn dylunio â llaw • Cynhyrchu poster anghydraddoldeb terfynol yn Photoshop	• Pa un o'r ystadegau hyn sy'n dal eich sylw? Pam? • Sut y gellid cyfleu'r data newydd hyn trwy ddulliau graffig? • Beth rydych chi wedi ei ddysgu am offer / technegau Photoshop ac elfennau dylunio a allai eich helpu â'ch cynigion dylunio?	Gweithgaredd 5: Crëwch eich ffeithlun anghydraddoldeb eich hun	• Yr un gofynion TG ag uchod • Canllaw i Athrawon Sesiwn 5, yn cynnwys: ○ Copïau o Daflen Gweithgaredd 5

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd dinasyddiaeth fyd-eang sydd wedi'i ysgrifennu ar gyfer athrawon Celf a Dylunio yw *Celf Cydraddoldeb*. Nod methodoleg Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yw helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu – meddwl – gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	**Sgiliau**	**Gwerthoedd ac agweddau**
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau a chyfrifoldebau • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl yn feirniadol ac yn greadigol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Y gallu i gymryd camau gweithredu deallus a phriodol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaeth

Diolch yn fwyaf arbennig i Sarah Cameron am ei mewnbwn wrth ysgrifennu'r adnodd hwn ac i Isabel Tucker am adolygu'r adnodd.

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Adnoddau defnyddiol
Ffeithluniau

- Heller, Steven and Veronique Vienne (2012) *100 Ideas That Changed Graphic Design,* Llundain: Lawrence King Publishing.
- McCandless, David (2010) 'The beauty of data visualization', sgwrs TED:

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

http://www.ted.com/talks/david_mccandless_the_beauty_of_data_visualization
- McCandless, David (2012) *Information is Beautiful* (argraffiad newydd), Llundain: Collins.
- McCandless, David (2014) *Knowledge is Beautiful*, Llundain: Collins.
- Gwaith McCandless, ychydig o enghreifftiau: http://www.davidmccandless.com/design_work/
- Rogers, Simon (2013) *Facts are Sacred*, Llundain: Faber & Faber.
- Rosling, Hans, 'The best stats you've ever seen', sgwrs TED: http://www.ted.com/talks/hans_rosling_shows_the_best_stats_you_ve_ever_seen#t-68705
- Blog data *The Guardian*: http://www.theguardian.com/data

Anghydraddoldeb

Cyhoeddiadau Oxfam

- Fideo ymgyrch *'Even it up*: The rich and the rest' (2014): http://www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us/find-an-action/even-it-up
- 'Even it up: time to end extreme poverty': policy-practice.oxfam.org.uk/publications/even-it-up-time-to-end-extreme-inequality-333012
- 'Wealth: Having It All and Wanting More', Oxfam Issue Briefing, Ionawr 2015, : http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/wealth-having-it-all-and-wanting-more-338125
- Kelly, Mike (2014) 'Defining a living wage means understanding the local context', Policy and Practice Blog, gwefan Oxfam GB, 15 Rhagfyr, http://policy-practice.oxfam.org.uk/blog/

Arall

- Danner, Mona J. (dim dyddiad) 'Instructions for how to play Inequality Monopoly': http://paulsjusticepage.com/elite-deviance/Monopoly-StratifiedSociety.pdf
- Gwefan Equality Trust: Impacts, attitudes, scales and trends relating to inequality: http://www.equalitytrust.org.uk/about-inequality
- Barack Obama ar anghydraddoldeb fel her fawr ein hoes ni: https://www.whitehouse.gov/the-press-office/2013/12/04/remarks-president-economic-mobility
- Rosling, Hans (2009) 'Let my data set change your mindset', sgwrs TED: https://www.youtube.com/watch?v=KVhWqwnZ1eM
- UN Population Fund (2015) 'Ten things you didn't know about the world's population', 13 Ebrill, http://www.unfpa.org/news/10-things-you-didn%E2%80%99t-know-about-world%E2%80%99s-population
- Wilkinson, Richard a Kate Pickett (2009) *The Spirit Level: Why More Equal Societies Almost Always Do Better*, London: Allen Lane.
  Wilkinson, Richard (2011) *'*How economic inequality harms societies*',* sgwrs TED: http://www.ted.com/talks/richard_wilkinson
- Wilkinson, Richard a Kate Pickett (2014) 'The Spirit Level authors: Why society is more unequal than ever': http://www.theguardian.com/commentisfree/2014/mar/09/society-unequal-the-spirit-level, *The Guardian*, 9 Mawrth.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Anghydraddoldeb rhwng dynion a merched

- *The Guardian* (2013) 'Show and Tell', 25 Hydref, http://www.theguardian.com/news/womens-blog/interactive/2013/oct/25/world-gender-gap-index-2013-mapped-iceland-uk
- *The Guardian* (2014) 'Women's rights country by country – Interactive', 4 Chwefror, http://www.theguardian.com/global-development/ng-interactive/2014/feb/04/womens-rights-country-by-country-interactive
- Gwefan Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, Gender Equality Index, http://hdr.undp.org/en/content/gender-inequality-index-gii
- UN Population Fund, tudalen 'Gender Equality', http://www.unfpa.org/swp/2005/presskit/factsheets/facts_gender.htm
- Visually, Inc: A company that helps designers and journalists create visual content: http://visual.ly/gender-equality-europe
- World Bank (2014) 'From participation to opportunity in women's work: What data tell us', Open Data blog, 3 Rhagfyr, https://blogs.worldbank.org/opendata/participation-opportunity-women-s-work-what-data-tell-us
- World Economic Forum (2013) 'The Global Gender Gap Report', Geneva: WEF, http://www3.weforum.org/docs/WEF_GenderGap_Report_2013.pdf

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.